**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

05 Rhagfyr 2017

Annwyl Russell

**Heriau digidoleiddio**

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi bod yn trafod heriau digidoleiddio gyda'r Ysgrifennydd Parhaol dros y misoedd diwethaf, a thrafododd ei llythyr dyddiedig 17 Tachwedd ataf i (copi ynghlwm) yn ystod y Pwyllgor ar 27 Tachwedd.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn nodi, ym mharagraff 4, bod portffolio Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, yn cynnwys cyfrifoldeb dros faterion digidol. Cadarnhaodd Julie James y byddai'n fodlon ymddangos gerbron y Pwyllgor priodol i ymchwilio i heriau digidol yn fanylach.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech drefnu sesiwn gyda Julie James yn y flwyddyn newydd i ymchwilio ymhellach i'r pwyntiau a godwyd yn llythyr yr Ysgrifennydd Parhaol, a phe gallech hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw ddatblygiadau.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565